

Bodleian Libraries

UNIVERSITY OF OXFORD

This book is part of the collection held by the Bodleian Libraries and scanned by Google, Inc. for the Google Books Library Project.

For more information see:

http://www.bodleian.ox.ac.uk/dbooks

This work is licensed under a Creative Commons Attribution-NonCommercial-ShareAlike 2.0 UK: England & Wales (CC BY-NC-SA 2.0) licence.

600092159W

133

CANIADAU

AC

EMYNAU YR EGLWYS,

WEDI EU NODI NEU EU RHANNU MEWN DULL NEWYDD,

MEGIS AG Y MAENT I'W CÔRGANU.

GAN

BWYLLGOR O OFFEIRIAID A LLEYGWŶR

YN ESGOBAETH BANGOR.

LLUNDAIN:
ARGRAPHEDIG GAN JOHN HADDON & GYF.,
AC AR WERTH GAN NIXON & JARVIS, BANGOR.

Pris 2d. yr un, neu 1s. 6d. y dwsin.

13981. f. 4.

BIBLIOTHECA·BODLEIANA
DOMINUS ILLUMINATIO MEA

EGLURHÂD.

Yr egwyddor ar ba un y rhannwyd y geiriau yn y llyfr hwn ydyw cymhwysiad o'r ddwy gyfundrefn a elwir yn gyffredin y Silliadol a'r Accenyddol. Ymdrechwyd wneuthur y rhanniad yn esmwyth ganu, ac yn gywir mewn grammadeg cyn belled ag yr oedd modd, gan gadw mewn golwg yr *ystyr*, *yr accen*, *a'r pwyslais*. Ni roddwyd dau sill i'r un nod ond yn unig lle yr oedd yr accen, neu y pwyslais, neu y ddau, yn gofyn hynny. Nid oes pedwar sill mewn un barr, ac nid oes ond dau fan lle y mae tri sill mewn dau farr dilynol (Jub. 2, a Mag. 2.)

Ar ddiwedd pob adran lle y mae yr accen yn syrthio ar y sill olaf ond un, mae y ddau sill olaf wedi eu nodi i gael eu canu ar yr un nod, megis y gair "Arglwydd" yn yr adnod gyntaf o'r *Venite*, oddi eithr mewn rhai mannau lle y rhoddir y sill olaf ond un i ddau nod y barr blaenorol.

Mae pob côrgan sengl yn cael ei rhannu i ddwy adran gan y barr dyblyg yn y canol, ac y mae pob adnod o'r Psalmau a'r Emynau wedi ei rhannu i ddwy adran gan wahannod (:) yn y canol, yn cyfatteb i ddwy adran y gôrgan, y barrau sengl yn yr adnodau ac yn y côrganau yn cyfatteb i'w gilydd, y gwahannod yng nghanol yr adnodau yn cyfatteb i'r barr dyblyg yng nghanol y côrganau, a'r gorphwysnod (stop) olaf i'r barr dyblyg olaf.

Y rhan flaenaf o bob adnod hyd at y barr cyntaf sydd i'w chanu ar yr adroddnod (reciting note) cyntaf y gôrgan; yna y sillau, fel y maent wedi eu rhannu, ar y nodau canlynol. Yn yr un modd y cenir yr adran olaf. Mae yr un sylwadau i'w cymhwyso at gôrgan ddyblyg, yr hon sydd yn gynnwysedig o ddwy gôrgan sengl.

Mae y sillau a argraphwyd mewn llythyrennau mawrion (capitals) yn dangos lle y dylid rhoddi y pwyslais olaf yn y rhannau adroddiadol o'r adnod. Mewn rhai mannau defnyddir yr accen feinlais (acute accent) i arwyddo fod pwyslais ar air arall yn yr un adran, fel hyn:

"Oblegid yn ei láw EF y mae gorddyfn | der · | ddaear."

Yma gwelir fod pwyslais ar "law" yn gystal ag ar "EF." Ond nid *i'r un graddau* y mae y pwyslais i'w roddi lle y dangosir ei fod, ac ni fwriadwyd nodi allan *bob* gair pwysleisiol ym mhob man. Rhaid gadael y pethau hyn i chwaeth y cantorion, y rhai a ddylent ymdrechu fod yn ddarllenwyr da, ac yna ni chamgymmerant gyd â golwg ar yr accen a'r pwyslais with gôrganu.

Mae y rhedlinell(—) yn dangos fod y sill blaenorol i'w ganu ar y nod neu y nodau dilynol.

Wrth gôrganu, gofaler roddi yr accen a'r pwyslais ar y sillau a'r geiriau yn gymmwys (neu mor agos ag y gellir) fel y gwneir wrth ddarllen yn gywir a difrifol. Ar y naill law, gocheler yr arferiad ddrwg o fyngialu a llusgo y geiriau, a'u hanner seinio mewn dull marwaidd a difywyd, neu ganu yr adnod olaf yn fwy arafaidd nâ'r lleill ; ac ar y llaw arall, ymgadwer oddi wrth yr hyn sydd yn llawn mor ddrwg, os nid yn waeth, sef eu rhedeg yn anystyriol a difeddwl gyd ag ysgafnder a brŷs anweddaidd. Seinier y sillau ym mhob gair yn gyflawn, yn eglur, ac yn ddefosiynol, gyd â'r un cyflymdra ag y gwna darllenwr da wrth ddarllen y llithoedd mewn dull naturiol ac esmwyth

gyd â gwir deimlad a chwaeth. Yn fyr, *mae yr un rheolau i'w dilyn wrth gôrganu ag sydd wrth ddarllen gyd â golwg ar accen, pwyslais, attaliadau* (pauses), *a seiniad eglur a chyflawn o'r llythyrennau a'r sillau.*

"Gwneler pob peth yn weddaidd ac mewn trefn."

Ebrill, 1869.

O.Y.—I'r diben o gôrganu yn weddaidd a chwaethus dylid cofio fod rhai adnodau i'w canu yn fwynaidd (*piano*), mwy neu lai, ac eraill yn gryf (*forte*), mwy neu lai. Gellir gosod i lawr fel rheol gyffredinol;

1 Fod yr adnod olaf o flaen y *Gogoniant i'r Tad* i'w chanu yn fwynaidd, a bod y *Gogoniant i'r Tad* i'w ganu bob amser yn gryf ac yn fywiog.

2 Fod yr adnodau hyn yn y *Te Deum* i'w canu yn fwynaidd, sef adnodau 5, 16, 19, 20, 21, 22, 23, 26, 27, 28; a'r rhai hyn i'w canu yn gryf, sef adnodau 14, 15, 24, 25, 29, a'r rhan olaf o adnodau 7, 8, 9.

Byddai yn fantais i'r cantorion pe gwnai arweinydd pob côr nodi allan â'i bin bob adnod neu ran o adnod fel hyn, *p. mp. pp. f. mf. neu ff.*

CANIADAU

AC

EMYNAU YR EGLWYS.

Boreol Weddí.

Veníte, Exultemus Domíno.

Psalm xcv.

1 DEUwch, | canwn · i'r | Arglwydd : YMlawen | hâwn · yn | nerth · ein | hiechyd.

2 Deuwn ger ei FRON | ef · â | dïolch : CANwn yn | llaf · ar | iddo · â | Psalmau.

3 Canys yr ARglwydd sy | Dduw ·— | mawr : a Brénhin MAWR | ar · yr | holl · — | dduwiau.

4 Oblegid yn ei láw EF y mae gorddyfn | der · au'r | ddaear : ac eFE bïau uch | el · der | y · myn | yddoedd.

5 Y môr sydd EIDDo, canys e | fe · a'i | gwnaeth : a'i DDWYlaw | a · lun | iasant · y | sychdir.

6 Deuwch, addOLwn, a | syrthiwn · i | lawr : a gostýngwn ger BRON yr | Ar · glwydd | ein · Gwneuth | urwr.

7 Canys eFE yw ein | Duw ·— | ni : a ninnau ŷm bobl ei BORfa | ef, · a | defaid · ei | ddwylaw.

8 Heddyw, os gwrandêwch ar ei leferydd, na chalEDwch | eich · cal | onnau : megis yn yr ymrysonfa, fel yn NYDD profed | ig · aeth | yn yr · an | ialwch ;

9 Lle y TEMTiodd eich | tad · au | fi : y profASant fi, a | gwel · sant | fy · ngweith | redoedd.

10 Deugain mlynedd yr ymrysonais â'r genhédlaeth HON, | a · dy | wedais : Pobl gyfeiliornus yn eu calonnau ydynt hwy, canys NID | ad · na | buant · fy | ffyrdd.

11 Wrth y rhai y TYNGais | yn · fy | llid : na | ddel · ent | i'm · gor | phwysfa.

Gogóniant i'r TAD, | ac · i'r | Mab : ac | — · i'r | Ys · pryd | Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad : yn OES | oes · oedd. | A · — | men.

——:o:——

Dydd Pasg.

¶ *Ar Foreol Weddi, yn lle'r Psalm,* Deuwch, canwn i'r Arglwydd, &c., *y cenir, neu y dywedir, yr Anthemau hyn.*

1 Crist ein Pasg ni a aBERTHwyd | dros · om | · · am | hyn · ny | cad · wn | ŵyl :

2 Nid â hen lefain, nac â lefain MALais | a · dryg | ioni: ond a bara CROYw | pur · deb | a · gwir | ionedd.

3 Crist, wedi cyfodi oddi wrth y meirw, NI bydd | mar · w | mwyach : nid arglwyddIAETHa mar | wol · aeth | ar · no | mwyach.

4 Canys fel y bu efe farw, efe a fu FARw | unwaith · i | bechod : ac fel y mae yn BYW, | byw · y | mae · i | Dduw.

5 Felly chwithau hefyd, cyfrifwch eich HUNain yn | feirw · i | bechod : eithr yn fyw i DDUW, yng | Nghrist · — | Iesu · ein | Harglwydd.

6 Crist a gyfODwyd oddi | wrth · y | meirw : ac a wnaed yn FLAENffrwyth y | rhai · — | a · hun | asant.

7 Canys gan FOD mar | woloeth · trwy | ddyn : trwy ddyn héfyd y MAE | ad · gyf | odiad · y | meirw.

8 Oblegid, megis yn ADDa y mae | pawb · yn | meirw : felly hefyd yng NGHRIST | y · byw | hê · ir | pawb.

Gogóniant i'r | TAD, | ac · i'r | Mab : ac | — · i'r | Ys · pryd | Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad : yn OES | oes · oedd. | A·— | men.

Te Deum Laudamus.

1 TI, | Dduw, · a | folwn : TI a gydna | byddwn · yn | Ar · — | glwydd.

2 Yr holl DDAEar a'th | fawl · — | di : y | Tad · tra | gywydd · — | ol.

3 Arnat ti y LLEFa' r | holl · Ang | ylion : y NEFoedd, a'r | holl · — | Nerthoedd · o'u | mewn.

4 Arnat ti y llefa CeRUBin | a · Se | raphin : Â llef | er · ydd | ddi · — | baid,

5 Sanct, | Sanct · —, | Sanct : ARglwydd | Dduw · Sa | ba · — | oth.

6 Néfoedd a DAEar | sydd · yn | llawn : o'th | —· O | gon · — | iant.

7 Gogoneddus GÔR yr | Ap · o | stolion : a'th | fawl · — | —· — | di .

8 Moliannus NIFer | y · Pro | phwydi : a'th | fawl · — | — · — | di.

9 Ardderchog LU | y · Merth | yri : a'th | fawl · — | — · — | di.

10 Yr Eglwys LÂN trwy'r | holl · — | fyd : a'th | add · — | ef · — | di ;

11 Y | — · — | Tad : O an | feid · rol | Fawr · — | edd ;

12 Dý ANrhyd | edd · us, | wir : ac | un · — | - | Fab ;

*13 HEfyd yr | Ys · pryd | Glân : y | — · Di | ddan ·— | ydd.

14 TI | —· —, | Crist : yw | Bren · hin | y · Go | goniant.

15 TI yw tra | gywydd · ol | Fab : y | — · — | — · — | Tad.

16 Pan gymmeraist ARnat war | ed · u | dyn : NI ddïys | tyr · aist | fru · y | Wyryf.

17 Pan orchFYGaist | holl · nerth | angau : yr agoraist DEYRNas | Nef · i | bawb · a | gredant.

18 Ti sydd yn EIStedd ar Dde | heu · law | Dduw : YNGo | gon ·— | iant · y | Tad.

19 Yr ŷm ni yn CREDu mai Ty | di · a | ddaw : yn | Farn · wr | ar · — | nom.

20 Gan hynny yr attoLYGwn i ti gynnorth | wyo · dy | weision : y RHAI a | brynaist · â'th | werth · fawr | Waed.

21 Pâr iddynt gael eu CYFrif | gyd · â'th | Saint : YN y Go | gon ·— | iant · tra | gywyddol.

22 ARglwydd, | cadw · dy | bobl : A ben | dithia · dy | e · tif | eddiaeth.

23. Llyw | — · ia | hwy : a | dyrcha · hwy | yn · dra | gywydd.

24 Beu | nydd · ac | fyth : Y clod | for · — | wn · dy | di;

25 Ác ANrhyd | eddwn · dy | Enw : byth | ac · yn | oes · — | oesoedd.

* Ail-ganer yr hanner olaf o gôrgan ddyblyg ar yr adnod hon.

26 Teil | yng · a, | Arglwydd : ein cadw y DYDD | hwn · yn | ddi · — | bechod.

27 ARglwydd, trugar | hâ ·— | wrthym : tru | —· gar | hâ · — | wrthym.

28 Árglwydd, poed dy druGARedd a | ddêl · — | arnom : megis yr ŶM | yn · ym | ddir · ied | ynot.

29 Arglwydd, YNot yr | ym · ddir | iedais : NA'M gwarad | wydd · er | yn · dra | gywydd.

——:o:——

Benedícíte, Omnía Opera Domíní.

1 Chwychwi holl Weithrédoedd yr ARglwydd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

2 Chwychwi Angýlion yr ARglwydd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

3 Chwychwi NEFoedd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

4 Chwychwi'r Dýfroedd, sydd uwch ben y ffurFAfen, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

5 Chwychwi holl Nérthoedd yr ARglwydd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

6 Chwychwi Hául a LLEUad, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

7 Chwychwi Sér y NEFoedd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

8 Chwychwi Gawódydd a GWLITH, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

9 Chwychwi Wýntoedd DUW, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

10 Chwychwi Dân a GWRES, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

11 Chwychwi Aúaf a HAF, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

12 Chwychwi Wlíthoedd a RHEWoedd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

13 Chwychwi Réw ac OERfel, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

14 Chwychwi Íâ ac EIRa, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

15 Chwychwi Nósau a DYDDiau, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

16 Chwychwi Oléuni a ThyWYLLwch, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

17 Chwychwi Féllt a ChymMYLau, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

18 BenDITHied y | Ddaear · yr | Arglwydd : MOLed a mawr | hâed · ef | yn · dra | gywydd.

19 Chwychwi Fynýddoedd a BRYNiau, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

20 Chwychwi holl Wýrddion Bethau ar y DDAEar, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

21 Chwychwi FfynHONnau, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

22 Chwychwi Fóroedd a LLiFEIRiaint, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

23 Chwychwi Forfílod, ac oll a'r sydd yn ymsymmud yn y DYFRoedd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

24 Chwychwi holl Ádar yr AWyr, ben | dithiwch ·

yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

25 Chwychwi holl Aniféiliaid ac ysGRUBLiaid, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

26 Chwychwi Blánt DYNion, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

27 BenDITHied Isra | el · yr | Arglwydd : MOLed a mawr | hâed · ef | yn · dra | gywydd.

28 Chwychwi Offéiriaid yr ARglwydd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

29 Chwychwi Wasanáethwŷr yr ARglwydd, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

30 Chwychwi Yspryḋion, ac Eneidiau'r CYfiawn, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

31 Chwychwi y rhai sánctaidd a gostyngedig o GALon, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

32 Chwychwi Ananïas, Azarïas, a Misäel, ben | dithiwch · yr | Arglwydd : MOLwch a mawr | hêwch · ef | yn · dra | gywydd.

Gogóniant i'r TAD, | ac · i'r | Mab : ac | — · i'r | Ys · pryd | Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad : yn OES | oes · oedd. | A ·— | men.

——:o:——

Benedíctus.

St. Luc. i. 68.

1 Bendigedig fyddo Arglwydd DDUW | Is · ra | el : canys efe a ymWELodd | ac · a | brynodd · ei | bobl ;

2 Ac a ddyrchafodd iachawdWRiaeth | nerthol · i | ni : yn NHŶ | Ddafydd · ei | was · an | aethwr ;

3 Megis y dywedodd trwy ENau ei | sanctaidd · Bro | phwydi : y rhai OEDD | o · ddech | reuad · y | byd ;

4 Yr anfonai i ni ymWARed | rhag ein · gel | ynion : ac oddi wrth DDWYlaw | pawb · o'n | di · gas | ogion ;

5 Y GWNAI efe dru | garedd · â'n | tadau : ac y COFiai ei | sanctaidd · Gyf | am · — | mod ;

6 A'r llŵ yr hwn a dyngodd efe wrth ein TAD | Ab · ra | ham : sef bod iddo ganiattâu i ni, gwedi ein hymwared oddi wrth ddwylaw ein gelynion, ALLu ei wasan | aethu · ef | yn · ddï | ofn ;

7 Mewn sanctéiddrwydd a chyfIAWNder ger ei | fron · — | ef : holl | ddyddiau · ein | byw · — | yd.

8 A thithau, Fab, a elwir yn BROphwyd | i'r · Gor | uchaf: canys ti a âi a flaen wyneb yr ARglwydd, i barot | tôi · ei | ffyrdd · — | ef;

9 Ac i roddi gwybodaeth iachawdWRiaeth i'w | bobl · — | ef: TRWY fadd | eu · ant | o'u · pech | odau,

10 Oherwydd tirIONdeb tru | garedd · ein | Duw: trwy yr hon yr ymwelodd â ni GODiad | Haul · — | o'r · uch | elder;

11 I roddi llewyrch i'r rhai sydd yn eistedd mewn tyWYLLwch a | chys · god | angau: ac i gyfEIRio ein | traed · i | ffordd · tang | nefedd.

Gogóniant i'r TAD, | ac · i'r | Mab: ac | — · i'r | Ys · pryd | Glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad: yn OES | oes · oedd. | A · — | men.

———:o:———

Jubilate Deo.

Psalm c.

1 Cenwch yn llafar i'r ARglwydd, yr | holl · — | ddaear: gwasanaethwch yr Arglwydd mewn llawenydd, DEUwch yn ei | ŵydd · ef | mewn · gor | foledd.

2 GwyBYDDwch mai yr | Arglwydd · sy | Dduw: efe a'n gwnaeth, ac nid ni ein hunain; ei BOBL ef | ydym, · a | defaid · ei | borfa.

3 Ewch i mewn i'w byrth ef â dïolch, ac i'w LYSoedd â | mol · iant | gennych : dïOLCHwch iddo, | a · chlod | forwch · ei | Enw.

4 Canys daionus yw yr Arglwydd, a'i druGAR-edd | sydd yn · dra | gywydd : a'i wirionedd a bery o genHEDLaeth | i · gen | hedl · aeth | byth.

Gogóniant i'r TAD, | ac · i'r | Mab : ac | — · i'r | Ys · pryd | Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad : yn OES | oes · oedd. | A · — | men.

——:o:——

Prydnhawnol Weddí.

Magníficat.

St. Luc. i. 46.

1 Fy ENaid a fawr | hâ · yr | Arglwydd : a'm hyspryd a lawenYCHodd yn | Nuw · — | fy · Iach | awdwr.

2 Canys eFE | a · ed | rychodd : AR ostyng | eiddrwydd · ei | was · anaeth | yddes.

3 Oblegid WELe, | o · hyn | allan : yr holl genhedlAETHau a'm | geilw · yn | wŷn · fyd | edig.

4 Canys yr hwn sydd allUog a | wnaeth · i mi | fawredd : a SANCTaidd | yw · ei | En · w | ef.

5 A'i druGARedd sydd yn | oes · — | oesoedd : AR y | rhai · a'i | hofn · ant | ef.

6 Efe a ddangOSodd | nerth · â'i | fraich : efe a wasgarodd y rhai BEILCHion ym mwr | iad · au | eu · cal | onnau.

7 Efe a dynnodd i lawr y CEDyrn o'u | heis · tedd | faau : ac a ddyrchAFodd y | rhai · — | is · el | radd.

8 Efe a lanwodd y rhai neWYNog | â · phethau | da : ac a anfonodd YMaith y | rhai · go | ludog · mewn | eisiau.

9 Efe a gynnorthwyodd ei was Israel, gan GOFio | ei · dru | garedd : fel y dywedodd wrth ein tadau, ABraham a'i | had · —, | yn · dra | gywydd.

Gogóniant i'r TAD, | ac · i'r | Mab : ac | — · i'r | Ys · pryd | Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad : ynOES | oes · oedd. | A · — | men.

——:o:——

Cantate Domíno.

Psalm xcviii.

1 Cenwch i'r Arglwydd ganiad newydd ; CANys efe a | wnaeth · bethau | rhyfedd : â'i ddeheulaw, ac â'i fraich sanctaidd, y PARodd iddo ei | hun · — | iach · awd | wriaeth.

2 Hyspysodd yr ARglwydd ei | iach · awd | wriaeth : a datguddiodd ei gyfIAWNder yng | ol · wg | y · cen | hedloedd.

3 Cofiodd ei drugaredd a'i wirionedd i DŶ | Is · ra | el : a holl derfynau 'r ddaear a WELsant iachawd | wriaeth · ein | Duw · — | ni.

4 Cenwch yn llafar i'r ARglwydd, yr | holl · — | ddaear : LLEFwch, ac | ym · lawen | hêwch, · a | chenwch.

5 Cenwch i'r ARglwydd | gyd · â'r | delyn : SEF gyd â'r | delyn · â | llef · can | moliaeth.

6 Cenwch yn llafar o FLAEN yr | Arglwydd · y | Brenhin : AR yr | udgyrn · a | sain · — | cornet.

7 Rhued y MÔR, ac y | sydd · — | ynddo : y BYD, a'r | rhai · a | drigant · o'i | fewn.

8 Cured y llifeiriaint eu dwylaw, a chydganed y mynYDDoedd o | flaen · yr | Arglwydd : CANys efe a | ddaeth · i | farn · u'r | ddaear.

9 Efe a farna'r BYD | mewn · cyf | iawnder : a'r | bobl · oedd | mewn · un | iondeb.

Gogóniant i'r TAD, | ac · i'r | Mab : ac | — · i'r | Ys · pryd | Glân;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad : yn OES | oes · oedd. | A · — | men.

——:o:——

Nunc Dimittis.

St. Luc ii. 29.

1 Yr awr hon, Arglwydd, y gollyngi dy WAS | mewn · tang | nefedd : yn | ol ·— | dy · — | air.

2 CANys fy | llygaid · a | welsant : dy | iach · awd | wr · — | iaeth,

3 Yr HON a | bar · ot | toaist : ger BRON | wyneb · yr | holl · — | bobl;

3 I fod yn olEUni i ol | euo · 'r Cen | hedloedd: ac yn oGONiant i'th | bobl · — | Is · ra | el.

Gogóniant i'r TAD, | ac · i'r | Mab : ac | —·i'r | Ys · pryd | Glân;

Megis yr oedd yn y dechreu y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad: yn OES | oes · oedd. | A · — | men.

——:o:——

Deus Misereatur.

Psalm lxvii.

1 Duw a drugarHAo wrthym, ac | a'n · ben | dithio : a thywynned llewyrch ei wyneb ARnom, a | thru · gar | hâ · ed | wrthym.

2 Fel yr adwaener dy FFORDD | ar · y | ddaear : a'th iachawdWRiaeth ym | mhlith · yr | holl · gen | hedloedd.

3 Molianned y BOBL | di, · O | Dduw : molIANned yr | holl · — | bobl · dy | di.

4 Llawenhâed y cenHEDLoedd, a | bydd · ant | hyfryd : canys tydi a ferni 'r bobl yn uniawn, ac a lywodRAETHi 'r cen | hedl · oedd | ar · y | ddaear.

5 Molianned y BOBL | di, · O | Dduw : molIANned yr | holl · — | bobl dy | di.

6 Yna 'r DDAEar a | rydd · ei | ffrwyth : a Duw, sef ein DUW | ni · —, | a'n · ben | dithia.

7 Duw | a'n · ben | dithia : a holl derFYNau 'r | ddaear · a'i | hofn · ant | ef.

Gogóniant i'r TAD, | ac · i'r | Mab : ac | — · i'r | Ys · pryd | Glân ;

Megis yr oedd yn y dechreu, y mae yr awr HON, ac y | bydd · yn | wastad : yn OES | oes · oedd. | A · — | men.

——:o:——